PET(4) WPI 29
Y Pwyllgor Deisebau

Ymgynghoriad ar ddeiseb  P-03-262 Academi Heddwch Cymru
Ymateb gan Mererid Hopwood

[redacted]

Abigail Phillips
Clerc y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Rhagfyr 2, 2012

Annwyl Ms Phillips,

**Parthed: Academi Heddwch**

Diolch am y cyfle i gael anfon ychydig feddyliau at sylw'r Pwyllgor Deisebau parthed sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru. Gwn nad oes angen i mi grybwyll pwysigrwydd cyrraedd y nod o weld sefydlu heddwch yn ein byd. Af ati felly i grynhoi ychydig o'r hyn a gredaf i y gallai Academi Heddwch ei wneud i gyfrannu at y nod hwnnw.

Yn y lle cyntaf, mae'r Academi yn ddatblygiad naturiol o flaengarwch y Cynulliad ym maes taclo trais. Gwelwyd eisoes symudiad i gael gwared ar fwlio o'n hysgolion, a chlywyd yn ddiweddar drafodaeth ar lawr y Cynulliad am fwrw plant. Roedd Carwyn Jones ei hunan ymhlith y rhai a leisiodd ei farn na ddylid defnyddio trais corfforol fel cosb. Gan mai rhyfel yw pen eithaf trais corfforol, a lladd milwyr a dinasyddion diniwed arweinwyr 'gelyniaethus' yw gweithredu'r gosb gorfforol eithaf, rwy'n sicr y byddai gan y syniad o sefydlu Academi Heddwch gefnogaeth drawsbleidiol yn y Bae. Dyma sefydliad a fydd yn gallu ymchwilio i ffyrdd o osgoi defnyddio trais corfforol pan fo carfanu - boed yn wledydd neu'n unigolion, yn anghytuno â'i gilydd. Fel rhieni ac athrawon rydym wedi hen ddeall nad drwy fwrw plentyn y mae datrys problemau, ond yn hytrach drwy ymresymu ag ef/hi. Drwy ddeialog y mae cyrraedd cytundeb. Gallai Academi Heddwch ddysgu i ni'r ffordd i ymestyn yr egwyddor hon i fyd oedolion ac i'r byd rhyngwladol. Dyma gyfle i Gymru felly gymryd cam arall ar y daith y mae eisoes wedi cychwyn arni.

Yn ail, buasai Academi Heddwch yn rhoi cyfle i ni roi cynlluniau addysg y lluoedd arfog mewn cyd-destun tecach. Ar hyn o bryd, gwelir pobl ifanc yn cael eu dylanwadau gan ymgyrch hysbysebu gref ar y teledu sy'n portreadu byd y milwr fel un o antur a rhamant. Mae'r lluoedd arfog hefyd yn darparu pecynnau addysgol i ysgolion, ac mae ganddynt bresenoldeb mewn siopau recriwtio ar y stryd fawr. Nid oes fforwm sydd â'r un proffil cyhoeddus yng Nghymru sy'n caniatáu i bobl ifainc weld ochr arall y stori, ac felly eu galluogi i ddod i benderfyniad cytbwys. Gyda sefydlu Academi Heddwch allasai'r Cynulliad sicrhau bod pawb sy'n ystyried gyrfa yn y lluoedd arfog yn deall beth yw cyfleoedd hirdymor cyflogaeth, beth yw'r risg - yn gorfforol ac yn feddyliol - a beth yw goblygiadau ail-gartrefu mewn cymdeithas sifil ar ôl gwasanaethu ar faes y gad. Mae cyfrifoldeb ar y Cynulliad i roi'r wybodaeth hon i bawb fel rhan o'i gwaith gyrfaoedd a rhan o'i dyletswyddau addysg.

Yn drydydd, buasai Academi Heddwch yn gallu ymchwilio'n drwyadl i gost gymdeithasol a chymdeithasol-amgylcheddol gwaith y lluoedd arfog yng Nghymru. Er nad oes gan y Cynulliad fyddin, mae wedi gweithredu ei hawl i ddidoli tiroedd ac awyr Cymru at ddibenion byddin. Mae angen ymchwil cadarn yn y maes hwn i alluogi aelodau'r Cynulliad wneud penderfyniadau doeth a phwyllog - ymchwil sy'n pwyso a mesur yr enillion a'r colledion i Gymru ac i'r byd. Dyma'r union fath ar ymchwil y gallai Academi Heddwch ei gyflawni.

Ar Fedi 21 eleni, - Diwrnod Heddwch Rhyngwladol - agorwyd Llyfr Gwyn Heddwch yng Nghaerfyrddin. Llyfr cain o waith llaw wedi ei wneud o'r defnyddiau gorau yw hwn, a llyfr sy'n gwahodd pobl led led Cymru i dorri eu henw ar ei dudalennau er mwyn datgan eu hymrwymiad i weithio tuag at weld heddwch yn dod i'n byd. Mae'r galw gan sefydliadau ar hyd a lled y wlad i gael cyfle i lofnodi'r llyfr wedi bod yn syfrdanol. Mewn cwta dau fis mae cannoedd o Gymry wedi torri eu henwau arno. Arwydd yw hyn, heb os, o wir ddeisyfiad pobl Cymru i'n gweld ni'n arwain y ffordd tuag at heddwch byd. Gallasai'r Cynulliad adeiladu Academi Heddwch gwirioneddol effeithiol ar seiliau cadarn traddodiad heddychlon y Cymry. Dyma, o bosib, fyddai cyfraniad gwerthfawroca'r Cynulliad Cenedlaethol i'r llwyfan rhyngwladol. Mawr hyderaf y bydd yn achub ar y cyfle i fwrw iddi a gosod y gonglfaen gyntaf yn ei lle yn ddi-oed.

yn ddiffuant

Mererid Hopwood

(MERERID HOPWOOD)